O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2021 Rhif 115 (Cy. 30)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffyrdd Ymuno tua'r De a thua'r Gogledd Trosffordd Caernarfon, Caernarfon, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021

Gwnaed	*2 Chwefror 2021*
Yn dod i rym	*8 Chwefror 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffyrdd Ymuno tua'r De a thua'r Gogledd Trosffordd Caernarfon, Caernarfon, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw i rym ar 8 Chwefror 2021.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 09:30 o'r gloch ar 8 Chwefror 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o ffyrdd ymuno tua'r de a thua'r gogledd trosffordd Caernarfon yr A487 yng Nghaernarfon, Gwynedd.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 2 Chwefror 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru